
Amrywio Trwyddedau Mynediad i Sbectrwm yn y band 3400 i 3680 MHz

Ystyriaeth Ofcom o'r ceisiadau i gysoni amodau technegol rhai trwyddedau Mynediad i Sbectrwm 3.4GHz, 3.5GHz a 3.6GHz â Phenderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd 2019/235

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ebrill 2019

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion: 19 Mai 2019

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae sbectrwm yn darparu'r tonnau awyr sy'n cynnal gwasanaethau diwifr, gan gynnwys ffonau symudol, a ddefnyddir gan bobl a busnesau bob dydd. Ofcom sy'n rheoli'r defnydd o sbectrwm yn y DU. Mae'n gwneud hyn drwy roi trwydded i ddefnyddio amleddau radio neu drwy lunio rheoliadau i eithrio defnydd o drwyddedu. O bryd i'w gilydd, bydd Ofcom neu drwyddedigion yn gwneud cynigion i newid trwydded. Rydyn ni wedi cael cais gan EE, Hutchison, Telefonica a Vodafone yn gofyn i Ofcom amrywio nifer o drwyddedau Mynediad i Sbectrwm 3.4 GHz, 3.5 GHz a 3.6 GHz. Byddai'r amrywiadau hyn yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno Systemau Antena Gweithredol (AAS).

Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori ar y cynigion a wnaed gan y pedwar trwyddedai i ddiwygio amodau technegol pedair trwydded Mynediad i Sbectrwm 3.4 GHz, un drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.5 GHz ac un drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.6 GHz. Mae hefyd yn nodi ein safbwynt dros dro sef ein bod yn bwriadu caniatáu'r ceisiadau hyn i amrywio.


Mae Ofcom nawr yn gwahodd partion sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau erbyn 19 Mai 2019 yn manylu ar unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch yr amrywiadau arfaethedig i'r trwyddedau.

Beth rydyn ni'n ymgynghori yn ei gylch – yn gryno

Mae pedwar deiliad trwydded wedi gofyn i Ofcom amrywio'r amodau technegol yn eu trwyddedau Mynediad i Sbectrwm 3.4 GHz, 3.5 GHz a 3.6 GHz. Mae gan EE, Telefonica a Vodafone drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.4 GHz yr un. Mae gan Hutchison (a'i is-gwmni, UK Broadband, sydd o dan ei berchnogaeth Iwyr) dair trwydded; un drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.4 GHz, un drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.5 GHz ac un drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.6 GHz.

Mae'r pedwar cwmni rhwydwaith symudol wedi gofyn i'r amodau technegol yn y trwyddedau hyn gael eu diwygio. Mae'r ceisiadau'n ceisio cysoni'r trwyddedau Mynediad i Sbectrwm 3.4 GHz, 3.5 GHz a 3.6 GHz â Phenderfyniad Cysoni diweddar yr Undeb Ewropeaidd ("Penderfyniad yr UE") ar y band 3.4 i 3.8 GHz.¹ Mae Penderfyniad yr UE ar 24 Ionawr 2019 yn diwygio Penderfyniad 2008/411/CE i ddiweddarau'r amodau technegol perthnasol i'r band amledd 3400-3800 MHz ac mae'n ychwanegu terfynau newydd o ran allyriadau ar gyfer AAS.

Byddai amrywio'r trwyddedau yn unol â'r ceisiadau yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno AAS fel rhan o rwydwaith symudol pob trwyddedai.



¹ "3.4 GHz" = 3410 – 3600 MHz, "3.6-3.8 GHz" = 3600 – 3800 MHz a "3.4-3.8 GHz" = 3410 – 3800 MHz neu 3400 – 3800 MHz (fel arfer yn amlwg o'r cyd-destun).

Yn fanwl, byddai amrywio'r trwyddedau yn:

- 1) Ychwanegu at yr amodau arbennig sy'n ymwneud ag Offer Radio i ddarparu ar gyfer cyfyngiadau pŵer yn y bloc a'r tu allan i'r bloc mewn perthynas â chyfanswm pŵer pelydru (TRP) newydd ar gyfer gorsafoedd sylfaen antena gweithredol (AAS).
- 2) Codi'r cyfyngiadau pŵer terfynol o 25 dBm i 28 dBm.
- 3) Dileu'r gofyniad ymyl band ychwanegol uwchben 3605 MHz a phennu gofyniad newydd ar 3800 MHz ac uwch.

Gwnaed cais i ddileu'r gofyniad ymyl band ychwanegol uwchben 3605 MHz ar gyfer pump o'r chwe thrwydded. Nid yw'r newid yn berthnasol i drwydded 3.6 GHz Hutchison/UK Broadband. Byddai amrywio yn dileu rhwymedigaeth ar y trwyddedigion, sy'n ddiangen mewn gwirionedd, o gofio'r newidiadau diweddar i drwydded 3.6 GHz Hutchison/UK Broadband (ym mis Rhagfyr 2018).

Mae Ofcom yn bwriadu caniatáu'r holl amrywiadau o ran y trwyddedau.

Crynodeb syml lefel uchel yw hwn yn unig. Mae'r cynigion rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch a'n rhesymeg ni wedi'u nodi yn y ddogfen lawn.